# Arolygiadau o Bractisau Deintyddol

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

## Trosolwg

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau **gofal iechyd preifat** ac arolygu **gwasanaethau'r GIG**. Rydym yn gwirio bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n hybu iechyd a llesiant pobl i'r eithaf. Mae ein harolygiadau o Bractisau Deintyddol yn gwerthuso a yw cleifion yn cael gofal o ansawdd uchel, ac a yw'r practis yn bodloni **Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017** ac yn ystyried y **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023)**. Rydym hefyd yn asesu i ba raddau mae practisau deintyddol yn cydymffurfio â **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017** ac yn cyrraedd y safonau ac yn dilyn y canllawiau sy'n berthnasol i bractisau deintyddol, fel **Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)**.

Rydym yn cynllunio ein harolygiadau ymlaen llaw yn seiliedig ar wybodaeth rydym yn ei chasglu am ansawdd gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Ar gyfer Practisau Deintyddol, rydym yn rhoi gwybod am arolygiadau hyd at **12 wythnos ymlaen llaw** gan y bydd y practis yn aros ar agor yn ystod yr arolygiad. Mae'r cyfnod rhybudd hwn yn galluogi'r practis i baratoi gwaith papur angenrheidiol, briffio'r staff, a gwneud trefniadau i sicrhau na fydd yr arolygiad yn amharu ar gleifion.

Os bydd pryderon brys, byddwn yn cyhoeddi naill ai **hysbysiad diffyg cydymffurfio** (practisau deintyddol preifat) neu **lythyr sicrwydd ar unwaith** (practisau deintyddol y GIG yn unig) o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r arolygiad. Mae'n ofynnol i'r Practis Deintyddol gyflwyno **Cynllun Gwella ar Unwaith**, yn esbonio sut y bydd yn datrys y materion dros y 5-7 diwrnod nesaf.

Rydym yn cyhoeddi **Adroddiad Arolygu** tua thri mis ar ôl yr arolygiad yn amlinellu'r hyn y mae'r practis yn ei wneud yn dda ac unrhyw feysydd y mae angen eu gwella. Rhaid i'r Practis Deintyddol gyflwyno **Cynllun Gwella** yn esbonio'r camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd gennym.



# Pwy sy'n bresennol mewn arolygiadau o Bractisau Deintyddol?

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales



## Yr Arolygydd Gofal Iechyd

Mae'r Arolygydd yn gweithio yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac ef sy'n arwain yr arolygiad.

Bydd yn edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r Practis Deintyddol, yn ogystal â chasglu adborth anghlinigol gan gleifion a'r tîm deintyddol, fel rheolwr y practis a staff y dderbynfa.

Ar ôl yr arolygiad, bydd yn llunio Adroddiad Arolygu sy'n nodi'r meysydd i'w gwella, a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan. At hynny, bydd yn darparu Cynllun Gwella i'r practis deintyddol ei roi ar waith.



## Adolygwyr Cymheiriaid

Deintyddion sy'n gweithio gyda ni yw'r rhain, sydd â phrofiad ymarferol diweddar o bractis deintyddol, ac sy'n gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn seiliedig ar ymarfer a phrofiad cyfredol.

Ar gyfer arolygiadau o Bractisau Deintyddol, bydd adolygydd cymheiriaid deintyddol clinigol yn rhan o'r tîm arolygu bob amser. Bydd yn adolygu cofnodion ac yn cyfarfod ag aelodau o dîm y practis er mwyn casglu adborth ganddynt.

# Beth sy'n digwydd yn ystod arolygiad?

## Cyn arolygiad

- Bydd AGIC yn anfon llythyr at y Practis Deintyddol hyd at 12 wythnos ymlaen llaw er mwyn ei hysbysu am yr arolygiad.
- Byddwn yn gofyn i'r staff gwblhau arolwg dienw er mwyn cael gwybod sut beth yw gweithio yn y practis. Byddwn hefyd yn gofyn i'r cleifion gwblhau arolwg dienw er mwyn gofyn iddynt am ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael.
- Bydd yr Arolygydd yn adolygu'r wybodaeth y byddwn wedi'i chasglu am y Practis Deintyddol. Gall y wybodaeth hon gynnwys pryderon, adborth, neu unrhyw wybodaeth arall (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) y byddwn wedi'i chael am y practis.

# Pwy sy'n bresennol mewn arolygiadau o Bractisau Deintyddol?

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

## Yn ystod arolygiad

- Bydd aelodau'r Tîm Arolygu yn dechrau drwy gyfarfod ag aelodau o Dîm Rheoli'r Practis a byddant yn cael eu tywys o amgylch yr amgylchedd.
- Byddant yn arsylwi ar y practis ar waith ac yn siarad â'r tîm rheoli, y staff a'r cleifion er mwyn cael darlun llawn o'r ffordd mae'r practis yn gweithredu.
- Bydd y tîm yn edrych ar bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau pwysig sy'n gysylltiedig â'r practis, gan ofyn am eglurhad lle bo angen. Bydd yr Adolygydd Cymheiriaid Clinigol yn edrych ar sampl o gofnodion cleifion, a bydd yr arolygwyr yn asesu cyfleusterau ac amgylchedd y practis.
- Ar ddiwedd yr ymweliad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar ar y prif ganfyddiadau.
- Bydd yr Arolygydd a'r Adolygydd Cymheiriaid Clinigol yn cwblhau llyfr gwaith drwy gydol yr arolygiad. Mae ein harolygiadau yn canolbwyntio ar dri maes:
- Ansawdd profiad y claf.
- Trefniadau ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.
- Sut y caiff y Practis Deintyddol ei arwain a'i reoli.
- Gallwch weld y categorïau hyn yn y Llyfrau Gwaith y bydd y Tîm Arolygu yn eu cwblhau, yn ogystal â'r adroddiad terfynol.

## After an Inspection

- We will send the Practice Management Team a draft report within six weeks of the inspection, asking them to check for any factual errors.
- If we identify areas needing improvement, we will send an Improvement Plan. The Practice Management Team must complete the Improvement Plan within 2 weeks detailing the actions they will take and the timeline for completion. These actions will need to be agreed by HIW.
- For urgent issues, we send a non-compliance notice (private dental practices) or an immediate assurance letter (NHS only) within two days of the inspection, outlining the necessary actions and deadlines. In this case, the Dental Practice must provide an Immediate Improvement Plan within 5 working days.
- The final report will be published on our website, usually three months after the inspection.